ADRODDIAD BLYNYDDOL

2017-2018

GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC

PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

CYSYLLTWCH GYDA NI



01286 671153

01286 671182

www.gisda.co.uk

gisda@gisda.co.uk

DILYNWCH NI

/gisdacyf

@gisdacyf

/gisdacyf

Cyngor Gwynedd Council

Cartrefi Cymunedol Gwynedd

BBC Plant Mewn Angen Children in Need

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cyflogwr Ystyriol Mindful Employer

Cyngor Gwirfoddol Cymru wcva Wales Council for Voluntary Action

Weston Charity Awards

Arloesi Gwynedd Wledig

Department for Work & Pensions

Nationwide

Ariennir gan y Loteri Genedlaethol National Lottery Funded

GAIR GAN Y CADEIRYDD A'R PRIFWEITHREDWRAIG

Bu'n flwyddyn arbennig a llawn datblygiadau cyffrous yn GISDA. Buom yn adolygu sylfaen y cwmni gan geisio sicrhau ein bod mewn lle cryf i wasanaethu pobl ifanc digartref a bregus yr ardal heddiw ac ar gyfer y dyfodol. Buom yn treulio cryn amser yn adolygu a diweddaru cyfansoddiad y cwmni ac yna sicrhau bod ein strwythurau Llywodraethu yn gweithio'n dda ac yn gyfredol. Bu'n ddarn o waith pwysig iawn a fydd yn gwarchod y cwmni gan sicrhau ein bod yn gweithredu yn gyfreithiol gywir.

Buom yn ffodus o gael grant cyfalaf gan Llywodraeth Cymru i brynu ein prif swyddfa ar y Maes yng Nghaernarfon. Rydym i gyd yn falch iawn o'r gefnogaeth yma gan ei fod yn rhoi sicrwydd tymor hir i'r cwmni. Cymerwyd y cyfle i brynu'r hen fanc sef yr adeilad drws nesaf ac rydym yn y broses o gwblhau asesiad dichonoldeb gan gynnwys ymgynghori gyda staff, pobl ifanc a'r gymuned i sicrhau y defnydd gorau ohono.

Bu galw sylweddol am ein gwasanaethau a bu staff wrthi'n brysur iawn yn ymateb i'r galw drwy weithio'n galed iawn i gefnogi rhai o bobl ifanc digartref a bregus ein hardal. Hoffwn ddiolch o galon iddynt oll am eu dyfalbarhad, cefnogaeth a'u gwaith caled. Mae'n fraint ac yn bleser i ni gyd gefnogi pobl ifanc,

Byddem yn lansio Strategaeth 2019-2023 GISDA yn ystod ein cyfarfod blynyddol eleni, bydd y ddogfen yma yn ein cynorthwyo i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd heriol sydd o’n blaenau ond bydd yn gosod cyfeiriad cadarn i'r holl gwmni er mwyn sicrhau y canlyniadau gorau i bobl ifanc.

Diolch hefyd i Elizabeth a Gethin sydd yn rhan o'r Tîm Rheoli ac hefyd i Fwrdd Rheoli GISDA sef asgwrn cefn y cwmni sydd yn rhoi eu hamser o'u gwirfodd yn rheolaidd. Rwyf yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf gan bod cymaint o gynlluniau cyffrous ar y gweill.

Sian Elen Tomos - Prifweithredwraig
Cyng. Tudor Owen - Cadeirydd

BLWYDDYN GISDA

2017-18

477

NIFER O GYFEIRIADAU

Yn ystod 2017-2018 derbyniodd GISDA gyfanswm o 477 cyfeiriad. Gweler isod pa brosiect o fewn GISDA ddaraprodd wasanaeth ar gyfer bob cyfeiriad.







56% o Arfon
8% o Dwyfor
31% o Feirionydd
5% o du hwnt i'r sir

GWASANAETH CEFNOGI POBL

DYMA WASANAETH CRAIDD GISDA SY'N DARPARU LLETY A CHEFNOGAETH I BOBL IFANC DIGARTREF

Dyma brosiect mwyaf GISDA o ran maint ac o fewn y tîm mae gweithwyr allweddol, gweithwyr cefnogol, gweithiwyr cysgu mewn a chydlynydd eiddo. Mae'r tîm yn gwneud gwaith arbennig i gefnogi'r pobl ifanc mwyaf bregus ein cymdeithas ac yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau.

Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth ar gyfer 64 o bobl ifanc ar unrhyw un amser. Mae'n gefnogaeth dwys a therapiwtig. Fel rheol mae pobl ifanc yn derbyn cefnogaeth am flwyddyn i flwyddyn a hanner cyn symud ymlaen.

Mae rhai pobl ifanc angen gefnogaeth am gyfnod hirach, rydym yn trio tynnu gwasanaethau eraill i mewn pan yn briodol ac yn ceisio sicrhau bod y person ifanc yn y canol bob amser.

Rydym yn craffu dangosyddion y tîm hwn gan mai dyma'r prosiect lle rydym yn casglu'r nifer fwyaf o ystadegau. Trowch drosodd i weld rhai o ystadegau'r tîm dros y flwyddyn:



OEDRAN

18% o'n cyfeiriadau rhwng 14 - 17, 49% rhwng 18-21 oed a 33% rhwng 22-26 oed.



PERTHNASAU

Prif reswm oedd pobl ifanc yn dod at GISDA oedd tor-perthynas.



IECHYD MEDDWL

Canran o bobl ifanc gyda anhwylder iechyd meddwl o rhyw radd ac a gyflwynodd eu hunain yn ddigartref yn ystod y flwyddyn.

NEET (DDIM MEWN ADDYSG, CYFLOGAETH NA HYFFORDDIANT)





66% o 'n cyfeiriadau ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, 22% mewn addysg, 2% mewn hyfforddiant a 9% mewn gwaith.

Y nifer sy'n NEET yn ystod gefnogaeth yn gostwng i 15%

SOFFA SYRFFIO

50% o'n cyfeiriadau yn 'Soffa Syrfio' cyn ymuno a GISDA

ADBORTH CYN DEFNYDDWYR

BLWYDDYN YMLAEN

"Bu'n flwyddyn bellach ers i mi adael GISDA. Fe wnaeth GISDA fy nghefnogi cymaint cyn symud ymlaen i'w Tai cymorth ac ar ôl i mi adael. Mae bywyd fi a fy nheulu wedi gwella'n sylweddol diolch i GISDA.

Rydym nawr yn byw yn ein cartref parhaol. Ni fuasem wedi llwyddo hebddyn nhw. Pryd bynnag oedd gennai broblem, dim ond galwad ffôn i ffwrdd oedd staff, ac roeddynt wastad yna i'n helpu. Cefais gefnogaeth eang gan gynnwys magu'r sgiliau i lenwi ffurflenni a' derbyn y cyfle i ymweld a lletya symud ymlaen posibl.

Derbyniais hefyd y gefnogaeth I reoli fy nghyllid, adeiladu hyder a cyflwynodd mi at grwpiau mamau a babanod a wnaeth fy helpu I gymdeithasu a dod I nabod mamau eraill a gwneud ffrindiau da. Mae staff GISDA yn groesawus dros ben ac bob amser yn gwneud siwr eich bod yn hapus. Heb GISDA, ni fyswn wedi dod o hyd I fy nghartref presennol. Allai ddim diolch iddynt digon!"

ADRODDIAD BLYNYDDOL

"Rwy'n ffeindio hi'n haws delio gyda fy iselder a problemau eraill yma oherwydd dwi'n gallu siarad hefo aelod o staff. Mae'n haws i mi fod ar fy mhen fy nhun oherwydd bob tro dwi'n gweld fy nheulu dwi'n cofio'r pethau drwg dwi di wneud i frifo nhw a mae hynny'n gwneud i mi deimlo yn waeth a gael meddyliau hunanladdol ond gan fy mod i ffwrdd, mae gennyf gofod fy nhun i feddwl amdanynt ac i geisio gwneud bywyd gwell I fy nhun."

GWIRFODDOLI





Mae GISDA yn parhau i gynnig cyfleon gwirfoddoli ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ymfalchio yn fawr ynddo. Er bod arian CIST Cyngor Gwynedd wedi dod i ben eleni penderfynwyd estynu cytundeb y swyddog gwirfoddoli gan bod y prosiect yn gymaint o lwyddiant.

Yn ystod y flwyddyn cefnogwyd 125 o bobl mewn lleoliadau gwirfoddoli o fewn GISDA, 60% ohonynt yn benywaidd gyda dros 50% yn bobl ifanc o dan 25.

Mae gwirfoddoli nid yn unig o werth arianol i GISDA (dros £40,000 17-18) ond yn llesol i'r unigolyn drwy magu hyder, hunnan balchder a chryfhau eu sgiliau a'u cv.

Derbyniwyd arian grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd gan Mantell Gwynedd a alluogwyd ni dalu am hyfforddiant i 18 unigolyn mewn cyrsiau fel Hylendid Bwyd, Agweddau Positif a Chymorth Cyntaf.

Rydym yn parhau i gynnig cwrs Gweithio Mewn Arlwyo QCF trwy Agoriad Cymru i wirfoddolwyr o fewn prosiect Te a Cofi. Ynghyd a'r hyfforddiant, derbynnir cefnogaeth gan y swyddog gwirfoddoli a staff ymroddgar y caffi i helpu unigolion paratoi at fywyd a gwaith.

Mae gennym nifer o astudiaethau achos positif lle mae pobl ifanc wedi symud ymlaen i waith cyflogedig neu i addysg llawn amser yn dilyn cyfnod o wirfoddoli gyda GISDA.

Yn ystod mis Mai 2018 treuliodd Ffion Jones o Bwllheli amser ar brofiad gwaith gyda GISDA fel rhan o'i chwrs Cyflwyniad i Waith yng Ngholeg Menai.

Fel person ifanc treuliodd Ffion gyfnod o dan ofal GISDA yn dilyn ymddatodiad o'i chartref. Derbyniodd d ym Mhwllheli a chefnogaeth gan weithiwr allweddol GISDA. Dros y blynyddoedd nesaf magodd tri o blant Caleb, Nanw ag Eban wrth weithio mewn amryw o swyddi.

Penderfynodd fynychu'r cwrs Coleg Menai fel cam cyntaf i chwilio am yrfa newydd. Treuliodd ei chyfnod gyda GISDA yn cysgodi'r tîm cefnogi pobl yn un o'r hosteli.

17 UNIGOLION WEDI GWIRFODDOLI



60% MERCHED

40% BECHGYN

£40,117

GWERTH ARIANNOL BLYNYDDOL

Mae gwerth ariannol ein gwasanaethau gwirfoddol yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Mwynhaodd cael gweld yr holl waith sy'n cael ei wneud gyda'r bobl ifanc yn enwedig gyda'i phrofiadau personol o fewn y cwmni. Yn fis Medi 2018 bydd Ffion yn cychwyn cwrs Mynediad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhwllheli gyda'r gobaith o ddod yn nol i gyfrannu at dîm GISDA yn y dyfodol agos.

OEDRAN

- 75% yn 16-24
- 17% yn 26-40
- 8% dros 40

YMUNWCH Â NI

Os oes gennych diddordeb mewn gwirfoddoli neu dod am brofiad gwaith yna cysylltwch gyda ni

01286 671153

gisda@gisda.co.uk

TE A COFI

Mae Te a Cofi yn mynd o nerth i nerth a bellach yn cyflogi 4 o staff llawn amser. Mae'r staff yma yn cefnogi tua 20 o wirfoddolwyr yn rheolaidd a chynnig cefnogaeth mewn gwaith i bobl ifanc eraill sydd ar raglenni megis Active Inclusion ac AdTRAC.

Mae'r awyrgylch wrth gerdded i'r caffi yn un arbennig ac yn sylw a gawni gan ein cwsmeriaid yn aml – mae creu ymdeimlad braf fel hyn yn anodd ond mae'r staff wedi gweithio'n galed i sicrhau'r cydbwysedd rhwng bwyd o safon uchel, ymdeimlad cryf o awyrgylch ynhwysol i bawb.

Mae'r caffi yn brysur iawn ac rydym yn andros o ddiolchgar i'n cwsmeriaid ffyddlon a rheolaidd am ein cefnogi ac am eu parodrwydd i fod yn amyneddgar ar adegau tra mae pobl ifanc yn datblygu sgiliau newydd.

Mae'r staff yn teimlo eu bod nhw eisiau gofod mwy i ddarparu mwy o wasanaethau megis pryd ar glud a darparu bwffe ac yn y blaen – rydym yn cydnabod hyn ac yn cymryd camau i edrych ar ein opsiynau i ehangu'r capasiti.

COFFI CYFAILL

Mae cynllun 'Coffi Cyfaill' bellach wedi bodoli yn Te a Cofi ers 3 mlynedd ac yn mynd o nerth i nerth. Mae'r syniad tu ôl i'r cynllun yn un syml – Pan fyddwch yn prynu coffi yn y caffi, gallwch dalu am un arall. Mae'r ail goffi wedyn ar gael i berson na all dalu am un eu hunain. Ond yng Nghaffi Te a Cofi, nid coffi yw'r unig ddewis, mae modd i gwsmeriaid hefyd archebu unrhyw beth oddi ar y fwydlen i berson mewn angen.

TÎM SYMUD YMLAEN GISDA

Sefydlwyd Tîm Symud Ymlaen GISDA ar ddechrau'r flwyddyn ariannol diwethaf i geisio ymateb i'r galw am ddarparwyr addysg amgen a staff oedd yn brofiadol wrth ymgysylltu gyda phobl ifanc oedd yn ei chael hi'n anodd ymdopi gyda darpariaeth prif lif.

Mae GISDA wastad wedi darparu amrywiaeth o gyfleon addysgiadol amgen a phrofiadau creadigol a hamdden i ymbweru pobl ifanc ar eu llwybr tuag at fyw yn annibynnol.

Ymgais yw Tîm Symud Ymlaen yw i ffurfioli hynny a chreu strwythur cadarn oedd yn glir i ddefnyddwyr gwasanaeth a chomisiynwyr o'r amrediad eang o gefnogaeth a sesiynau oedd ar gael.

TRAC

Darperir amrywiaeth o gyrsiau addysg amgen i ddisgyblion Gwynedd a Môn sy'n rhan o brosiect TRAC 11-19, sef prosiect sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 11-19 sy'n datgysylltu ag addysg ac mewn perygl o ddod yn NEET (ddim mewn addysg, gwaith na hyfforddiant).

Yr her yw ceisio cydbwyso ein gallu i ddarparu ond sicrhau bod cynnal y prosiect yn gynaliadwy hynny oherwydd ein bod yn cael ein comisiynu yn ôl y galw a weithiau nid oes cysondeb i hynny.

Serch hynny yn ystod y flwyddyn fe weithiodd tîm TRAC GISDA mewn 7 ysgol uwchradd ar draws Gwynedd a Môn ac ymysg rhai o'r gweithdai a

Dim ond ers blwyddyn mae Tîm Symud Ymlaen GISDA yn weithredol ac mae'r gwaith mae'r staff wedi gyflawni o fewn eu blwyddyn gyntaf yn arbennig a chredwn yn gryf fel cwmni bod potensial i ddatblygu cyfleon pellach a hynny yn gwbl ddwy ieithog. Amlinellaf isod rhai o agweddau gwahanol o'r hyn a ddarperir gan y Tîm :

ddarparwyd oedd unedau mewn 'Rheoli Dicter' a 'Codi Hyder'.

Mae TRAC yn brosiect ataliol sydd yn cynorthwyo'r disgyblion hynny sydd yn ei chael hi'n anodd cyrraedd eu potensial o fewn ysgol a hynny am amryw o resymau gwahanol.

ADTRAC

Sefydlwyd Tîm newydd yng Ngwynedd a Môn o fewn y ddau Awdurdod Lleol i redeg cynllun AdTRAC sef cynllun sydd yn cefnogi pobl ifanc 16 i 25 i symud ymlaen i'r byd gwaith.

Mae GISDA yn gweithio'n agos iawn gyda'r ddau dîm. Hyd yma rydym wedi cael ein comisiynu i ddarparu rhaglen cefnogi gwirfoddolwyr o fewn ein menter gymdeithasol 'Te a Cofi' i ddarparu cefnogaeth a sgiliau i gynyddu hyder cyn symud ymlaen i swydd gyflogedig. Rydym am barhau i gydwethio'n agos gyda'r tîm yma i osgoi unrhyw ddyblygu ac i gyd ddarparu pan fo'r angen.

PROSIECT ACTIVE INCLUSION

POBL IFANC YN SYMUD YMLAEN I WEITHIO

Prosiect i gefnogi bobl ifanc i ennill sgiliau a hyder a symud ymlaen i waith ydy Active Inclusion. Mae WCVA yn arwain ar y prosiect ac rydym ni yn darparu ar eu cyfer.

Mae'r prosiect wedi bod eithriadol o lwyddiannus. Dyma rai o ystadegau diddorol Active Inclusion o fewn y cyfnod rhwng Ionawr 2017 a Mawrth 2018:

40 O BOBL IFANC YMUNO A'R PROSIECT

STORI SHANE

Yr oedd Shane yn un o'r rhai cynta i ymrwymo ar y

100% OHONYNT YN NEET CYN YMUNO A'R PROSIECT



20 o bobl ifanc rhwng 18 a 20

17 o bobl ifanc dros 21

19 wedi ymuno a strand 1, a 21 wedi ymuno a Strand 2 (gweithio)

prosiect Active Inclusion, cafwyd leoliad gwaith iddo yng Ngwesty Seren, Llan Ffestiniog fel cogydd dan hyfforddiant.

Tra yno, fe wnaeth Shane weithio yn galed iawn yn ystod ei gyfnod ar Active Inclusion, yn gweithio oriau cymysg ac anghymdeithasol .

Dywedodd Shane fod y cyfle hwn wedi galluogi iddo ddatblygu sgiliau newydd a cynyddu ei hyder efo cael gwaith llawn amser mewn dywidiant oedd o ddiddordeb iddo.

> "Ar y pryd o ni heb waith a nath riwyn son am prosiect newydd oedd gen GISDA, oddo yn swnio yn rili da a mae'n dangos bod o yn cynllyn da achos dwi di cael aros yn rwla am 6 mis cyfan"

Mae'r cyflog mae Shane wedi dderbyn drwy fod ar y cynllyn wedi galluogi iddo ddechrau derbyn gwersi dreifio a meddwl am y dyfodol.

Mae bellach wedi pasio ei brawf gyrru theory ac yn gobeithio cael trwydded yrru lawn yn y misoedd i ddod. Mae Shane yn gorfod dibynu ar drafnidiaeth cyhoeddus, sydd yn neud hi yn anodd i gyrraedd gwaith ar adegau penodol. Mae bellach wedi gorffen ar y cynllyn ac wedi cael swydd efo Gwesty Seren, hoffwn llongyfarch Shane a diolch i Gwesty Seren am fod yn rhan or prosiect.

DYMA RHAI O'N POBL IFANC YN EU SWYDDI NEWYDD

GRŴP IEUENCTID LHDT+ GISDA

Rydym yn ffodus bod un o gyn-fyfyrwyr GISDA, sydd bellach yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig ac yn gweithio i CAMHS wedi cychwyn ac yn parhau i redeg clwb ieuenctid ar ein rhan yn wirfoddol.

Dros y flwyddyn mae'r clwb wedi mynd o nerth i nerth ac mae'r nifer sydd yn mynychu wedi cyrraedd 15 ar ambell noson. Er bod y clwb yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr buom yn ffodus i ennill cais grant loteri o £10,000 i gefnogi'r clwb.

Mae GISDA wedi cydnabod ers sawl blwyddyn bod gennym diffyg arbenigwyr yn y maes pwysig yma wrth i ni ddod ar draws cynifer o bobl ifanc yn flynyddol yn wynebu poen meddwl ar sail eu rhywioldeb. Rydym yn ffodus bod Aled wedi rhoi ei amser o'i wirfodd i sefydlu a chynnal y gwasanaeth pwysig hwn o fewn GISDA.

Mae Mari wedi dechrau trefnu ac adeiladu grŵp drwy alluogi i bobl ifanc fynychu cynhadleddau, gwahodd gwahanol bobl i siarad yn y clwb i rannu eu profiadau, cydweithio'n agosach gyda'r ysgolion ac ati.

Mae'r clwb wedi derbyn sylw positif iawn gan y cyfryngau ac o hynny mae'r niferoedd wedi cynyddu'n eithriadol gyda phobl ifanc o Bresdatyn, Harlech ac Ynys Môn yn mynychu'n rheolaidd.

Credwn yn gryf o fewn GISDA fod gan bob person ifanc yr hawl i deimlo'n gyfforddus a hapus heb wynebu unrhyw orthrwm na gwahaniaethu yn sgil eu rhywioldeb o fewn ein cymunedau.

Mae potensial enfawr i'r clwb a hoffem petawn yn gallu ehangu'r cyfleoedd i gynnal clwb mewn ardal arall o Wynedd ac adeiladu ar ein profiadau i allu darparu cyngor a chefnogaeth i deuluoedd, unigoion ac ysgolion Gwynedd.

TÎM ÔL OFAL

POBL IFANC ÔL OFAL

Ariennir y gwasanaeth hwn gan Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Mae Rhan 6 o Deddf Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sicrhau bod darparu cynghorydd personol yn statudol.

Mae Gwasanaeth Ôl-Ofal GISDA yn cefnogi pobl ifanc sydd wedi bod drwy'r system gofal. Fel gwasanaethau eraill GISDA rydym yn dilyn y model therapiwtig ('Model Fi') wrth weithio gyda, a chefnogi, y bobl ifanc.

Mae gennym ddau Gynghorydd Personol sy'n gweithio er lles y bobl ifanc drwy eu cefnogi ar faterion eang megis cefnogaeth emosiynol, cefnogaeth yn ymwneud â materion tai, budd-daliadau, chwilio am waith, rheoli ymddygiadau, delio âg achosion trais yn y cartref a llawer mwy.

Adnewyddwyd ein cytundeb yn ystod y flwyddyn am 3 blynedd gyda chynnydd yn ei werth.

Rydym felly yn cyflogi Gweithiwr Addysg fel rhan o'r tîm sydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc ôl ofal yn benodol i helpu gyda'u sgiliau, achrediadau a'u symud yn nes at y farchnad waith.

Yn ychwanegol i hyn, mae gennym gytundeb gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i letya rhiant ifanc yn un o'n tai.

Yn ystod y flwyddyn rydym yn gobeithio parhau i adeiladu ar y ddarpariaeth yma gan geisio denu arian newydd gan bod ystadegau a deilliannau pobl ifanc ôl ofal yng Nghymru yn parhau i fod yn llawer is na petaent heb fod mewn gofal.

RHIENI IFANC NI

Rydym wedi derbyn arian am dair blynedd gan Plant Mewn Angen i gyflogi dau weithiwr cefnogol am 3 blynedd i weithio gyda rhieni ifanc sydd o dan 18 oed.

TÎM RHIENI IFANC GISDA

Mae'r staff yn gwneud gwaith arbennig yn hyrwyddo hawliau rhieni ifanc, yn eu ymbweru i deimlo'n hyderus a'u cynorthwyo gyda materion amrywiol.

Mae nifer o astudiaethau achos wedi profi gwerth a llwyddiant y prosiect ac mae'r ariannwyr yn hynod o hapus gyda sut mae'r prosiect yn dod yn ei flaen.

Mae'r staff yn cynnal sesiynau grŵp a 1:1 ac yn cydweithio'n agos gyda cholegau ac ymwelwyr iechyd pan fo'r angen.

Mae'r staff hefyd wedi bod yn cwblhau ceisiadau grant amrywiol i gynorthwyo'r bobl ifanc fynychu coleg neu i gael cymorth gyda chostau teithio neu gwarchod. Nid oes adnoddau mawr gyda'r prosiect ond mae'r gwahaniaeth mae'r staff yn ei wneud heb adnoddau ychwanegol yn anhygoel.

Mae GISDA wedi bod yn cefnogi rhieni ifanc ers blynyddoedd ac wedi rhedeg sawl prosiect lwyddiannus.

Rydym yn credu y dylai bob rhiant ifanc gael y cyfle i fod yn berson ifanc yn ogystal a bod yn rhiant a chael mynediad i holl gyfleon sydd ar gael.

ATAL DIGARTREFEDD

Mae'r prosiect Atal Digartrefedd wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Gweithiwr Atal Digartrefedd wedi bod yn gweithio gyda grŵp o fudiadau i greu sesiynau o fewn ysgolion i blant blwyddyn 9 - criw sy'n galw eu hunain yn DEWIS. Mae'r mudiadau yn cynnwys yr Heddlu a Gwasanaeth Trais yn y Cartref.

Mae'r prosiect hefyd yn gyfrifol am chwilio am lety fforddiadwy i bobl ifanc ac yn derbyn nifer o gyfeiriadau yn uniongyrchol gan adran digartrefedd Cyngor Gwynedd.

Mae gennym berthynas dda gydag amryw o landlordiaid lleol ac rydym yn y broses o greu pecyn deniadol i landlordiaid a fydd yn cynnwys cefnogaeth ddwys i bobl ifanc. Mae gennym berthynas dda iawn gydag Adran Ddigartrefedd Cyngor Gwynedd yn unol â Deddf Tai 2014.

Yn yn ystod y flwyddyn fe orffennwyd gwaith adnewyddu ar dy prynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Wrth gydweithio a datblygu ein perthynas gyda Gwasanaethau Cymdeithasol, fe benderfynwyd clustnodi'r llety ar gyfer pobl ifanc ôl-ofal.

Ers haf 2017 mae teulu sydd yn derbyn cefnogaeth gan Gynghorwyr Personol wedi cael cartref yn 55 Cae'r Saint.

Mae'r perthynas a'r drefniant gyda Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio yn wych a'r teulu wedi cael cefnogaeth ddwys i ddatblygu sgiliau i fyw yn annibynnol.

Ariannwyd y prosiect gan Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd.

55 Cae'r Saint

3 STRYD NIWBWRCH, CAERNARFON

Yn ystod y flwyddyn fe brynwyd ein hail dŷ, fel ffordd o ddarparu llety ar gyfer pobl ifanc. Y bwriad gyda'r tŷ yma oedd ei uchafu fel ei fod o yn safonol ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth. Oherwydd llwyddiant y berthynas gyda Gwasanaethau Cymdeithasol wrth ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc yng Nghaer Saint fe benderfynwyd ehangu'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth fel bod pobl ifanc ôl ofal yn gallu cael llety yn Stryd Niwbwrch.

Bydd person ifanc yn symud i mewn eiddo ar y 14eg o Fedi 2018. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn awyddus i ddefnyddio'r eiddo i gefnogi pobl ifanc ôl ofal sydd am barhau mewn addysg hyfforddiant a gwaith. Bydd rhan o'r gwaith yma yn defnyddio'r tŷ fel tŷ hyfforddiant - gofod lle gallir datblygu sgiliau byw yn annibynnol drwy wahanol weithgareddau a chefnogaeth ddwys.

Mae cael sicrwydd incwm drwy ddatblygu perthynas gyda Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi sylfaen da i GISDA ddatblygu fwy o eiddo i bobl ifanc Gwynedd. Y gobaith yw fydd model o berchnogi tai ein hunain yn cyfrannu at ein strategaeth o fod yn gynaliadwy wrth i grantiau fod yn fwy cystadleuol yn y dyfodol.

Mae'r tŷ wedi gweld buddsoddiad sylweddol mewn cyfnod byr iawn diolch i oriau hir o waith caled ein staff i sicrhau fod pobl ifanc yn cael cartref o ansawdd.

'MODEL FI'

Mae GISDA wedi mabwysiadu model seicolegol o ddarparu gwasanaeth ers blynyddoedd ac yn ôl yn 2015 fe wnaethom ei ddatblygu mewn fframwaith therapiwtig unigryw o'r enw 'Model Fi' i gynnwys elfennau o symud ymlaen i waith mewn awyrgylch o ddealltwriaeth a chefnogaeth.

Mae staff y cwmni wedi parhau i sicrhau eu bod yn gweithio'n gyson mewn ffordd therapiwtig ac mae elfennau eraill wedi bod yn llwyddiannus yn arbennig hyfforddiant mae'r cwmni wedi buddsoddi yn sylweddol ynddo dros y blynyddoedd ar gyfer cyrsiau sydd yn sicrhau dealltwriaeth unigolion o safbwynt seicolegol.

Rhan arall sydd wedi bod yn llwyddiannus yw bod staff yn cael gofod i adlewyrchu ar eu gwaith a hynny dan oruchwyliaeth seicolegydd profiadol iawn. Mae staff yn gwerthfawrogi yr amser yma ac mae'n gyfle iddynt gael cefnogaeth ei gilydd mewn gofod saff a niwtral.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos diddordeb mewn dull GISDA o weithio ers sawl blwyddyn ac maent bellach wedi mynd ati eu hunain i greu tîm ACE (Adverse Childhood Experiences) sydd yn rhannu rhinweddau a priodweddau tebyg iawn i 'Model Fi' GISDA.

Yn ystod 2017-2018 comisiynwyd adolgiad o 'Model Fi' ac yn dilyn hyn yr ydym wedi sylweddoli bod angen adnoddau pellach i sicrhau bod y model yn cael ei wir fabwysiadu gan GISDA.

Yr ydym yn y broses o roi cynllun mewn lle i sicrhau hyn a gweld pa gamau allwn gymryd o fewn ein hadnoddau presennol i sicrhau ein bod yn parhau i ddilyn llwybr therapiwtig wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc bregus.



ADEILADWAITH Y MODEL

CYFRANOGI

↓

POLISIAU CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

↓

HYFFORDDIANT STAFF

↓

YMARFER ADLEWYRCHOL

↓

MYNEDIAD I GWNSELA A SEICOTHERAPI

↓

ADDYSG AMGEN I BOBL IFANC

↓

MONITRO AC ADOLYGU GWASANAETHAU

↓

SEREN

↓

CYDWEITHIO GYDA GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL

GRANTIAU POBL IFANC GISDA

GRANT CYMORTH LLAW GISDA

Mae unrhyw rodd ariannol sy'n cyrraedd GISDA yn cael ei gadw, fel rheol, ar wahan i gynorthwyo pobl ifanc sydd mewn angen ac wrth iddynt symud ymlaen i'w cartrefi eu hunain am y tro cyntaf.

Mae'r grant ar gael i'r bobl ifanc sy'n derbyn cefnogaeth gan wasanaeth GISDA, a gall berson ifanc ofyn am hyd at £75.

Mae'r grant yma wir yn gwneud gwahaniaeth i fywydau ein pobl ifanc ac rydym yn ddiolchgar ofnadwy i'r cyhoedd am godi arian a chyfrannu.

£4,670

Dyma cyfanswm rhoddion i GISDA 2017-18



17 o FERCHED

13 o FECHGYN

DYMA SUT GAFODD Y GRANT EI DDEFNYDDIO ELENI:



Os hoffech godi arian i GISDA, cysylltwch am becyn codi arian neu gallwch gyfrannu drwy ddefnyddio'r linciau isod:

JustGiving.com/GISDA

Giveasyoulive/GISDA

STRATEGAETH

2019-2023

EDRYCH YMLAEN

Gyda chynllun corfforaethol presennol GISDA am 2016-2019 yn dod i ben mae'r cwmni wedi bod yn gweithio ar gynllun strategaethol newydd am 2019-2023 gan roi ystyriaeth i anghenion a llwybr y cwmni dros y blynyddoedd i ddod.

Yn dilyn gwaith ar y cyd rhwng y tîm rheoli a Bwrdd Rheoli GISDA fe gymeradwywyd strategaeth newydd i GISDA am 2019-2023. Roedd cwblhau'r strategaeth yn broses agored ac fe alluogodd ni i weithio gyda'n gilydd a chadw ffocws ar brif nôd GISDA.

Cynhaliwyd diwrnod mewnol ym mis Medi i gyflwyno'r strategaeth yn ffurfiol i holl staff GISDA a chael adborth ar draws y cwmni am beth ddylid ei flaenoriaethu wrth symud ymlaen efo'r strategaeth. Byddwn yn rhoi adborth i staff ar hyn

Bydd Strategaeth 2019-2023 yn cael ei lawnsio'n swyddogol yng Nghyfarfod Blynyddol GISDA 2018.

Mae'n adlewyrchu ein trafodaethau ar draws y cwmni o farn a llais pobl ifanc i fyny at aelodau ein Bwrdd Rheoli ac yn rhywbeth yr ydym yn falch iawn ohono.

Yr ydym yn hyderus y bydd yn dod yn ddogfen fyw a bydd ein canlyniadau yn efelychu'r nodau strategol sydd ynddo dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Strategaeth yn nodi ein gwerthoedd, ein blaenoriaethau a'n hymrwymiad hir-dymor i barhau i roi cefnogaeth a cyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus. Byddwn yn canolbwyntio ar y 5 nôd strategol canlynol:

a'r camau nesaf ym mis Hydref.

EIN NODAU STRATEGOL

LLAIS

GISDA yn sicrhau bod llais pobl ifanc digartref a bregus yn ganolog i bopeth

LLETY

GISDA yn gwmni sydd yn ymateb i anghenion llety a chefnogaeth pobl ifanc digartref a bregus

CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD

GISDA yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus drwy weithgareddau creadigol, artistig, therapiwtig, hamdden a chreadigol

CYMUNED

GISDA yn gwmni sydd yn cyfranogi a chwarae ei ran yn y gymuned er budd pobl ifanc digartref a bregus.

CYNALIADWYEDD

GISDA yn datblygu cynlluniau , mentrau cymdeithasol a meithrin partneriaethau i sicrhau cynaliadwyedd y cwmni

LLYWODRAETHIANT GISDA

Yn ystod 2017-2018 aeth y Bwrdd Rheoli ati i adolygu ac asesu trefniadau llywodraethiant GISDA.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddilyn egwyddorion y Côd Llywodraethu i Elusennau er mwyn sicrhau nid yn unig bod GISDA yn cydymffurfio efo'r gyfraith a rheoliadau perthnasol ond hefyd yn hyrwyddo diwylliant lle mae popeth yn gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth GISDA.

Mae'r Bwrdd wedi rhoi cynllun mewn lle i sicrhau hyn yn cynnwys darpariaethau ar gyfer asesiad blynyddol o drefniadau llywodraethiant GISDA. Fel rhan o'r gwaith yma ac yn dilyn ymgynghori dwys diweddarwyd cyfansoddiad ac amcanion elusennol GISDA.

Cymeradwywyd y cyfansoddiad newydd gan y Comsiwn Elusennau ac mae bellach wedi ei gofrestru efo Tŷ Cwmniau a'r Comisiwn Elusennau.

Fe luniwyd ein strategaeth newydd ar yr un pryd a'r gwaith cyffrous yma ac mae'r ddau yn plethu i'w gilydd ac yn rhoi arweiniad clir i'r tîm rheoli wrth fynd ati i flaenoriaethu rhaglen waith priodol.

NODAU LLESIANT



GISDA LEWYRCHUS

Creu cyfleoedd cyffrous i baratoi pobl ifanc a chyfrannu at leihau amddifadedd ymysg pobl ifanc. Fe wnawn hynny drwy hyrwyddo cyflogadwyedd a gyrfa i bob person ifanc.

GISDA GYDNERTH

Arfogi ac ymbweru'r genhedlaeth nesaf gyda'r sgiliau a'r gwydnwch i wynebu heriau bywyd

GISDA IACHACH

GISDA SY'N RHAN O GYMUNED CYDLYNUS

Mabwysiadu egwyddorion cymunedol gan gymryd y cyfrifoldeb cyffredinol mewn integreiddio pobl ifanc i'r gymuned a sicrhau lle i'r gymuned o fewn GISDA

GISDA GYDA DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

Cynorthwyo ac ymbweru staff a pobl ifanc i ddatblygu eu hyder i gyfrannu'n y Gymraeg

Gwneud defnydd o safonau Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau cwmni sydd yn hybu iechyd a lles staff a phobl ifanc a mabwysiadu'r egwyddor '5 ffordd at les'

GISDA SY'N FWY CYFARTAL

Gweithredu polisiau cyfleoedd cyfartal ym mhob rhan o'n gwaith gan ymdrechu i ddileu unrhyw rwystrau ar ffordd pobl ifanc

GISDA SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD EANG

Ymrwymo i chwarae ein rhan i leihau ein ôl troed carbon a gweithredu ein polisiau amgylcheddol

GWEITHLE IACH

GWOBR IECHYD Y GWEITHLE BACH
SMALL WORKPLACE HEALTH AWARD
ARIAN • SILVER
Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales

BEICIO

Dros yr Haf eleni, fe aeth criw bach o staff a Rheolwyr GISDA ar daith o Gaernarfon tuag at Felinheli efo fflyd o feics amrywiol y fenter lleol Antur Waunfawr.

Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr a bu'n gyfle i gymdeithasu, cadw'n heini a iach ac adeiladu sgiliau gweithio mewn tîm. Buasem yn annog unrhyw un i fynd ar y beics yma, mae bob math o rai gwahanol ar gael ac mae'r staff yn gefnogol iawn

GWOBR GWEITHLE BACH LEFEL ARIAN

Buom yn llwyddiannus o gael gwobr arian am wobr gweithle iach eleni. Roedd rhaid i ni brofi ein bod yn buddsoddi mewn gwahanol bethau i sicrhau hyn, fe welwch o'r dudalen hon ychydig o enghreifftiau diweddar.

Yn ychwanegol i hyn mae telerau gwaith GISDA yn ffafriol ac yn cyd fynd gyda rhai o ofynion cyrraedd safon arian 'Gwobr Gweithle Iach'

AMSER CADW'N IACH I'N STAFF

Penderfynwyd ar ddechrau'r haf i beilota amser rhydd i staff oedd yn dymuno fynd i gadw'n iach i wneud hynny yn amser gwaith. Roedd pawb yn cael ¾ yr wythnos neu 3 awr y mis dros yr Haf i fynd i gerdded, mynd i'r gym, gwneud yoga neu unrhyw weithgaredd oedd yn helpu'r corff neu iechyd meddwl staff. Mae'r adborth wedi bod yn bositif gan y staff a gymerodd rhan.

Dechreuodd dau aelod o staff fynychu'r gym gyda'r gilydd a staff o timau eraill wedi bod yn mynd am dro tra oedd y tywydd yn braf. Peilot oedd hyn a byddwn yn edrych ar wahanol ffurf o ddatblygu hyn i sicrhau gweithle hapus a iach.

CYFRIFON 2017-18

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR GISDA

Rydym wedi astudio datganiad ariannol crynodedig GISDA Cyfyngedig am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2018.

PRIOD GYFRIFOLDEBAU YR YMDDIRIEDOLWYR A'R ARCHWILWYR

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiad ariannol crynodedig yn unol â chyfraith perthnasol y Deyrnas Unedig ac argymhellion y SORP elusennau.

Ein cyfrifoldeb ni yw i ymadrodd i chwi ein barn ar gysondeb y datganiad ariannol crynodedig gyda'r datganiadau ariannol llawn ar Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr.

Yr ydym hefyd wedi darllen y gwybodaeth ychwanegol a cynhwysir yn y datganiadau ariannol crynodedig a chysidro'r ymhlygiadau i'n adroddiad os y down yn ymwybodol o unrhyw gamosodiad a ymddengys neu anghysondeb sylweddol gyda'r datganiad ariannol crynodedig.

Cynhaliwyd ein gwaith yn unol â Bwletin 2008/3 a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio. Mae ein adroddiad ar ddatganiadau ariannol llawn y cwmni yn disgrifio sail ein barn ar y datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

DATGANIAD O WEITHREDOEDD ARIANNOL (YN CYNNWYS CYFRIF INCWM A GWARIANT) AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 MAWRTH 2018

	2018	2017

	£	£
INCWM		
Incwm gwirfoddol		
Rhodd adeilad	390,000	100,000
Rhoddion	7,425	7,732
INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL		
Grantiau, cytundebau rhenti ac ati	1,352,999	1,666,664
Elw ar werthu asedau sefydlog	6,300	-
Llog Banc	140	152
Incwm arall	1,458	1,015
CYFANSWM INCWM	1,758,322	1,775,563
GWARIANT	1,465,950	1,636,988
INCWM NET A SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD AM Y FLWYDDYN		
Cronfeydd ar 1 Ebrill 2017	868,776	730,201
Cronfeydd ar 31 Mawrth 2018	1,161,148	868,776

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2018

	2018	2017
ASEDAU SEFYDLOG	£	£
Asedau cyffyrddadwy a defnyddir gan yr elusen	980,840	401,416
ASEDAU CYFREDOL		
Stoc	1,331	1,500
Dyledwyr	95,201	186,307
Arian yn y banc	367,001	393,942
	463,533	463,533
CREDYDWYR		
(Symiau yn dalidadwy mewn blwyddyn)	136,793	114,389
ASEDAU NET	1,161,148	868,776

CRONFEYDD INCWM

Cronfeydd cyfyngedig	752,309	377,220
Cronfeydd anghyfyngedig	408,839	491,566

BARN

Yn ein barn mae'r datganiadau ariannol crynodedig yn gyson â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad Blynyddol GISDA Cyfyngedig am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2018.

W J Matthews a'i Fab
Archwiliwr Cofrestredig
Cyfrifwyr Siartredig 11-15 Y
Bont Bridd Caernarfon

-17 Medi 2018

DATGANIAD GAN YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r cyfrifon crynodedig atodol yn yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd allan o'r cyfrifon blynyddol a rhai eitemau o wybodaeth yn berthnasol i'r datganiad o weithredoedd ariannol a'r fantolen.

Mae'n bosibl na fydd y datganiadau ariannol crynodedig yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi dealltwriaeth llawn o faterion ariannol yr elusen.

Am fwy o fanylion dylid cysylltu â'r cyfrifon blynyddol llawn, adroddiad yr archwiliwr ac adroddiad yr ymddiriedolwyr. Gellir cael copïau o'r rhain o GISDA, 22/23 Caste Square, Caernarfon, Gwynedd. LL55 2NA.

Mae'r cyfrifon blynyddol llawn wedi cael eu archwilio gan archwiliwr annibynnol ac wedi derbyn adroddiad diamwys. Cymeradwywyd y cyfrifon blynyddol gan y Bwrdd ar 17 Medi 2018 a byddent yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau a'r Cofrestrydd Cwmnïau ymhen amser.

Arwyddwyd: MR Tudor Owen (Cadeirydd)
Dros ac ar ran yr ymddiriedolwyr